

## Cyngor interim ar ddefnyddio camerâu/technoleg symudol/Cyfryngau cymdeithasol

Bu rhai problemau/pryderon yn ddiweddar mewn perthynas â'r defnydd o gamerau a delweddau personol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu'r strategaeth a chanllawiau e-ddiogelwch presennol eleni er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cyd-fynd â'r canllawiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru. Dylai'r canllawiau weithio i ysgolion tra'n amddiffyn disgyblion a staff. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymdrechu i wneud hyn pan fyddwn yn diweddarau'r canllaw presennol yn 2016/17. Yn y cyfamser mae'r cyngor canlynol wedi cael ei roi gan y cynghorydd TG i ysgolion.

### Diogelu data

Mae'n bwysig cofio y diffinnir delweddau o bobl fel data personol. Fel y cyfryw, mae Deddf Diogelu Data 1998 yn gymwys i dynnu delweddau, dal delweddau, cadw delweddau, rhannu delweddau a dinistrio delweddau. Mae angen i ysgolion sy'n cymryd a defnyddio delweddau ffotograffig o blant a phobl ifanc gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data. Caiff plentyn ei ystyried fel unrhyw un o dan 18 oed. Mae'r Ddeddf Diogelu Data hefyd yn pwysleisio'r angen i sicrhau y caiff caniatâd priodol ei roi ar gyfer y defnydd o ddelweddau o bobl y gellir eu hadnabod yn hawdd, plant ac oedolion fel ei gilydd.

### Technoleg sy'n newid

Er bod canllawiau'r Awdurdod Lleol yn cael eu diweddarau eleni gan fod technoleg yn newid ac yn symud ymlaen, bydd rhai pethau yn aros yn gyson mewn unrhyw ganllaw diwygiedig, sef:

- ni ddylai staff ddefnyddio eu hoffer eu hunain oherwydd eu bod yn teimlo bod eu dyfeisiau personol yn fwy cyfredol ac effeithlon nag offer yr ysgol.
- ni ddylai staff ddefnyddio dyfeisiau personol i gadw a lanlwytho delweddau/fideos o blant am unrhyw reswm.

Efallai fod hyn yn ymddangos yn rhy ragnodol ac wedi'i gynllunio i gyfyngu ar yr hyn y gall athrawon ei wneud gyda thechnoleg yn yr ystafell ddosbarth - ond bwriad y pwynt penodol hwn yn y canllaw yw diogelu athrawon rhag honiadau a chynnal eu henwau da proffesiynol.

### Gwefannau Cyfryngau Cymdeithasol

Os bydd angen i ysgol ddefnyddio gwefannau cyfryngau cymdeithasol neu wefannau y mae eu hangen ar staff ar gyfer datblygiad proffesiynol, er eu bod wedi'u rhwystro'n ddiofyn gan Gyngor Sir Penfro, gall y Pennaeth wneud cais i'w datgloi ar gyfer safle ei ysgol drwy gysylltu â'r Ddesg Gymorth TG. Yna gall ysgolion gael mynediad i wefannau cyfryngau cymdeithasol a lanlwytho delweddau drwy ddefnyddio offer yr ysgol.

Os bydd offer personol yr athrawon yn well nag offer yr ysgol, ac nad yw offer yr ysgol yn gallu lanlwytho lluniau i wefannau cyfryngau cymdeithasol, yna dylai'r ysgol sicrhau bod cynllun caffael TG treigl wedi'i gynnwys yn y CDY fel y caiff offer TG eu diweddarau'n rheolaidd a'u bod yn addas at y diben. Mae'r Awdurdod Lleol yn

adolygu'r gwefannau sy'n cael eu rhwystro ar rwydwaith y cwricwlwm mewn ymgais i sicrhau na chaiff gwefannau addysgol dilys eu rhwystro mewn camgymeriad sydd yn rhwystredig ac yn gyfyngedig.

Mae staff yn rhydd i ddefnyddio eu dyfeisiau personol i ymweld â'r gwefannau hyn yn *personol* - ond ni fyddem yn argymhell cysylltu dyfais personol sydd â mynediad i'r rhyngwyd drwy 3G, heb ei hidlo, ag uwchdaflunydd a dangos y wefan i ddisgyblion. Yn aml, gall gwefannau heb eu hidlo gynnwys hysbysebion, ffrydiau sylwadau a negesfyrddau a all gyflwyno deunydd amhriodol. Os byddai hyn yn digwydd ar ddyfais personol aelod o staff byddai'n gyfrifol yn personol petai'n dangos deunydd amhriodol i ddisgyblion. Mae system hidlo Cyngor Sir Penfro yn safonol, ac mae'n gwneud y gwaith gorau posibl o ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd amhriodol. Fodd bynnag, nid yw unrhyw hidlydd yn berffaith ac, os byddai digwyddiad ar ein rhwydwaith ysgolion wedi'i hidlo, byddai Cyngor Sir Penfro yn atebol os byddai'r digwyddiad hwnnw yn gwaethygu - nid yr ysgol na'r athro unigol.

### Disgyblion yn defnyddio eu dyfeisiau eu hunain

Os bydd ysgol yn ystyried BYOD (Dewch â'ch Dyfais eich Hun) gall ein hadran TG helpu gyda chanllawiau a chymorth technegol. Mae rhai ysgolion wedi dechrau defnyddio BYOD ac maent wedi rhoi polisiau ac arferion ar waith a fyddai'n ddefnyddiol i ysgolion eraill. Bydd canllawiau e-ddiogelwch Cyngor Sir Penfro yn cynnwys cyngor ar BYOD. Fodd bynnag, byddem yn haeru unwaith eto fod polisiau a gynlluniwyd o gwmpas BYOD o hyd yn argymhell nad yw staff ysgol yn defnyddio dyfeisiau personol i gadw a lanlwytho delweddau a fideos o blant.

### Cadw Delweddau

Dylid cadw lluniau yng ngwasanaethau cwmwl Office 365 HWB, maent ar weinyddion yn y DU, sydd wedi'u diogelu gan gyfraith Diogelu Data yr UE, a Llywodraeth Cymru fyddai'n gyfrifol am unrhyw achos o ddatgelu data (felly ni fyddai'r ysgol yn atebol). Gall staff lawrlwytho delweddau o ddisgyblion ar offer ysgol, naill ai yn yr ysgol neu gartref ar yr amod mai eiddo yr ysgol yw'r offer. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio mai'r canllaw yw peidio â lawrlwytho delweddau o blant ar ddyfeisiau *personol* staff - gallai hyn roi staff mewn perygl petai unrhyw honiadau yn cael eu gwneud.

**Nid yw'n addas tynnu lluniau sy'n dangos anafiadau i blant. Os bydd gennych unrhyw bryderon, dylid adrodd ar unrhyw anafiadau i blant ar unwaith i'r Tîm Asesu Gofal Plant (CCAT).**

Disgwylir i HWB gyhoeddi dogfen Llywodraethu Gwybodaeth newydd (roedd disgwyl iddi gael ei chyhoeddi ym mis Mai, felly dylai fod yn fuan iawn!) gyda chanllawiau penodol i ysgolion ar y defnydd diogel o'r llwyfan ac offer HWB fel Office 365.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r defnydd o gamerâu/cyfarpar digidol/cyfringau cymdeithasol ac ati, cysylltwch â Duncan Whitehurst neu Huw Benbow yn yr Awdurdod Lleol i drafod y rhain.

**Duncan Whitehurst**

Athro Ymgynghorol TG

01437 775247

[duncan.whitehurst@pembrokeshire.gov.uk](mailto:duncan.whitehurst@pembrokeshire.gov.uk)

**Huw Benbow**

Ymarferydd Arweiniol TGCh

01437 775247

[huw.benbow@pembrokeshire.gov.uk](mailto:huw.benbow@pembrokeshire.gov.uk)